| |
|---|
| **Rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd i Wrthfiotigau a Rhagnodi (HARP)** |

| | |
|---|---|
| **Safonau ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau wrth Ddefnyddio Dyfeisiau Symudol mewn Gofal Iechyd** | |
| **Awdur:**<br>HARP, Iechyd Cyhoeddus Cymru | |
| **Dyddiad:** Rhagfyr 2019 | **Fersiwn:** Terfynol wedi'i chymeradwyo gan HCAI –DB ar 14 Ionawr 2020 |
| **Cyhoeddi/Dosbarthu:**<br>• Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI)<br>• Tîm Atal a Rheoli Heintiau<br>• Tîm Diogelu Iechyd<br>• HARP, Iechyd Cyhoeddus Cymru | |
| **Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen:**<br>Darparu safonau Atal a Rheoli Heintiau i GIG Cymru ar gyfer rhyngweithio diogel, rheoli a dihalogi dyfeisiau symudol yn y lleoliad gofal iechyd er mwyn lleihau'r risgiau o Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) a gwella diogelwch cleifion. | |

# Cynnwys

1. 'DYFAIS SYMUDOL 4' ........................................................ 3
2. ATODIAD 1 ........................................................ 6
3. ATODIAD 2 ........................................................ 9

# 1 'Dyfais Symudol 4'

**Safonau Allweddol ar gyfer lleihau'r risgiau wrth Atal a Rheoli Heintiau ar Ddyfeisiau Symudol**

## Defnydd yn yr amgylchedd Clinigol



**Caffael**

**Safon 1** – Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer caffael dyfeisiau symudol i'w defnyddio ar gyfer gofalu am gleifion, eu rheoli a'u trin.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

a. *Telerau defnyddio neu bolisi TG i fynd i'r afael â diogelwch gwybodaeth cleifion ac atal lladrata dyfeisiau Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth.*
b. *Manyleb glir ar gyfer caffael dyfeisiau symudol newydd a Thechnoleg Gwybodaeth gysylltiedig sy'n mynd i'r afael â'r polisi atal a rheoli heintiau ar gyfer dihalogi*
c. *Dylai dyfeisiau symudol fod o safon sy'n caniatáu ar gyfer dihalogi digonol e.e. cas/gorchudd cyfan y gellir ei sychu a fydd yn gwrthsefyll glanhau a dihalogi.*
d. *Digon o gyllid caffael i ymroi i newid yn amlach y dyfeisiau a allai gael eu difrodi oherwydd lefel y dihalogi sy'n angenrheidiol (i fynd i'r afael â diogelwch cleifion) sydd y tu allan i gyfarwyddyd y gwneuthurwr a'r gwarant ar gyfer dyfeisiau cyfredol.*
e. *Mae cynlluniau busnes yn ystyried yr angen i gaffael dyfeisiau ychwanegol at ddefnydd clinigol ar gyfer y prosiect dyfeisiau symudol a fydd o safon gofal iechyd yn ddelfrydol*

. *Bydd trefniant gwasanaeth a thrwsio clir ar waith ar gyfer dyfeisiau Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth*

f. *Yn ddelfrydol, dylid 'dod â'ch dyfeisiau eich hun' **(BYOD)** i'w defnyddio mewn mannau anghlinigol ac fe'u defnyddir ar risg y perchennog o ran difrod a gwarant oherwydd dihalogi.*
g. *Mae prosesau archwilio yn* monitro cydymffurfedd â pholisi TG a'r fanyleb dyfeisiau symudol ar gyfer *prynu*

**Hyfforddiant**

**Safon 2** - Rhaid i bob aelod o staff clinigol sy'n defnyddio dyfeisiau symudol i ofalu am gleifion a'u rheoli gael hyfforddiant digonol.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

a. *Hyfforddiant gorfodol cyfredol mewn atal a rheoli heintiau.*
b. *Hyfforddiant Gweithwyr Gofal Iechyd yn y gofynion atal a rheoli heintiau ar gyfer defnydd diogel o ddyfeisiau symudol gan ddefnyddio'r dull bwndelu*
c. *Wedi'i hyfforddi i wirio bod y ddyfais sy'n cael ei defnyddio mewn cyflwr da cyn ei defnyddio mewn man clinigol*
d. *Canllawiau clir ar risgiau a rhyngweithio diogel â'r ddyfais yn y man clinigol*
e. *Canllawiau BYOD ar y risgiau sy'n gysylltiedig â dihalogi'r ddyfais*

**Defnyddio Dyfais Symudol**

**Safon 3**- Mae Dyfeisiau Symudol yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n ddiogel i sicrhau bod y risg o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael ei lleihau, nad yw gofal a diogelwch cleifion yn cael eu peryglu ac nad yw sylw'r gweithiwr gofal iechyd yn cael ei dynnu oddi wrth ei waith wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

a. *Dim ond yn yr amgylchedd clinigol/cartref y claf y ceir mynediad at ddyfeisiau symudol ar gyfer gofalu am gleifion, eu trin a'u rheoli ac nid ar gyfer gweithgarwch nad yw'n ymwneud â gwaith!*
b. *Bydd gweithwyr gofal iechyd yn storio dyfeisiadau personol ar gyfer gweithgarwch nad yw'n ymwneud â gwaith i ffwrdd o'r man clinigol e.e.* cwpwrdd clo/bag yn ystod sifft ac ni fyddan nhw'n eu cario nhw gyda nhw e.e. mewn pocedi, ar laniardiau ac ati.
c. *Bydd hylendid dwylo yn digwydd yn unol â'r polisi hylendid dwylo a '5 moment WHO' cyn ac ar ôl rhyngweithio â'r claf a chyn ac ar ôl defnyddio'r ddyfais*
d. *Dylid tynnu menyg a dihalogi'r dwylo cyn defnyddio'r ddyfais symudol*
e. *Mae canllawiau arferion da ar gyfer y ddyfais wrth erchwyn y gwely ar gael i staff e.e. peidio â gosod y ddyfais symudol ar y gwely (dylid ystyried stand TG neu droli), rheoli cyswllt cleifion â'r ddyfais.*
f. *Ni fydd unrhyw ryngweithio amhriodol gyda'r ddyfais yn ystod gweithdrefnau clinigol neu sefyllfaoedd gofal dwys e.e. bydd gweithwyr gofal iechyd yn tynnu eu hunain o'r gweithgarwch, tynnu menyg, hylendid dwylo e.e. os byddant yn anfon neges destun, cymryd galwad*
g. *Bydd rheolwyr wardiau ac adrannau yn monitro defnydd priodol o ddyfeisiau symudol yn y man clinigol*
h. *Defnyddir dyfeisiau symudol y tu allan i'r parth ynysu, cartref neu garfan cleifion heintiedig oni bai bod y defnydd yn hanfodol pan fydd asesiad risg o angen yn cael ei gynnal*
i. *Bydd mesurau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i amddiffyn neu ddihalogi'r ddyfais at ddefnydd hanfodol y tu mewn i barth ynysu neu garfan cleifion heintiedig*
b. *Mae cyngor ar gael i gleifion ac ymwelwyr ar arferion da ynghylch defnyddio eu dyfeisiau symudol eu hunain*
j. Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfedd

## Dihalogi

**Safonol 4 -** Bydd dyfeisiau symudol yn cael eu dihalogi'n briodol i'w defnyddio yn yr amgylchedd clinigol/cartref y claf.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

a. *Dylai'r dyfeisiau symudol a ddefnyddir yn yr amgylchedd clinigol fod o safon sy'n caniatáu ar gyfer dihalogi digonol e.e. cas/gorchudd cyfan y gellir ei sychu a fydd yn gwrthsefyll glanhau a dihalogi.*
b. *Dylai pob dyfais feddygol sydd wedi'i chofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) gael ei dihalogi yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.*
c. *Rhaid i ddyfeisiau symudol a ddefnyddir fel dyfeisiau meddygol gydymffurfio â rheoliadau dyfeisiau meddygol*
d. *Dylai dyfeisiau fod yn gyfan i ganiatáu dihalogi effeithiol e.e. dim sgrin, cas neu orchudd wedi cracio*
e. *Dylai ategolion e.e. gwifren wefru, bysellbad Bluetooth fod yn gyfan heb unrhyw wifrau noeth, dim craciau mewn plygiau neu gasys i ganiatáu dihalogi effeithiol*
f. *Bydd dyfeisiau a ddefnyddir ar gyfer gofal/triniaeth/rheolaeth glinigol yn cael eu dihalogi cyn eu rhoi i gleifion, yn y cyfnod rhwng cleifion ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio.*
g. *Rhaid cadw at y polisi lleol ar gyfer y cynnyrch glanhau priodol i'w ddefnyddio ar gyfer dihalogi*
h. *Bydd protocol sy'n manylu ar y ffordd gywir o ddefnyddio'r dyfeisiau a gwaredu gorchuddion neu gasys tafladwy a/neu amldro*
i. *Rhaid glanhau dyfeisiau a roddir i glaf mewnol i'w defnyddio (nid claf heintiedig yn ddelfrydol) o leiaf ddwywaith y dydd ac yna eu glanhau/dihalogi cyn iddynt gael eu defnyddio gan glaf arall.*
j. *Rhaid glanhau cyfrifiaduron llechen neu sgriniau cyffwrdd sydd wedi'u lleoli mewn mannau cyhoeddus â mynediad agored o leiaf ddwywaith y dydd. Rhaid eu glanhau'n amlach os daw'n amlwg eu bod wedi'u halogi, os yw'n hysbys bod haint neu os yr amheuir bod haint, ac yn ystod cyfnodau o heintiau cymunedol cynyddol e.e. ffliw, norofeirws.*
k. *Mae cypyrddau gwefru wedi'u cynnwys yn yr amserlen lanhau (yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr)*

*l. Anogir gweithwyr gofal iechyd i lanhau eu dyfeisiau personol o leiaf bob dydd neu ar ddechrau a diwedd sifft*

## ATODIAD 1

# Cefndir/Adolygiad o Lenyddiaeth

Mae dyfeisiau symudol, sy'n aml yn cael eu dal â llaw, fel ffonau symudol, cyfrifiaduron llechen, gliniaduron, llyfrau clyfar bellach wedi'u sefydlu yn y gweithle clinigol i gefnogi rheolaeth cleifion. Mae dyfeisiau ar gyfer y defnydd hwn yn cynnwys y rhai a ddarperir gan y sefydliad i'w defnyddio gan staff a/neu gleifion. Maent hefyd yn cynnwys y rhai y mae'r staff yn berchen arnynt sy'n eiddo personol iddynt ar gynllun 'dod i'r gwaith' sydd wedi'u ffurfweddu â diogelwch lleol ar gyfer mynediad TG. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ddyfeisiau a ddefnyddir ar gyfer Technoleg Gwybodaeth (TG) gan gynnwys dyfeisiau personol ac ategolion sy'n:

- Aros gyda'r gweithiwr gofal iechyd mewn mannau clinigol e.e. ffôn clyfar
- Aros gyda'r Gweithiwr Gofal Iechyd yng nghartref y claf e.e. llechen neu ffôn clyfar, iPod/iPad
- Yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu cleifion/arolwg/adloniant a gallant aros mewn mannau clinigol e.e. llechen, gliniadur, llyfr clyfar
- Symud o glaf i glaf mewn mannau clinigol e.e. ar weithfannau symudol, defnyddio Pac hanfodol

Mae defnydd cynyddol o ddyfeisiadau symudol yn gysylltiedig â gwell cyfathrebu a mynediad at adnoddau e.e. cofnodion electronig cleifion ar gyfer cynllunio gofal, addysgu ac arolygon cleifion, cymwysiadau (apiau) fel canllawiau micro, y gall pob un ohonynt gynorthwyo wrth roi diagnosis a gwella canlyniadau clinigol.

Mae Polisi Dyfeisiau Symudol GIG Cymru (2019) yn amlinellu safonau ar gyfer cymhwyso, diogelu a defnyddio technoleg symudol a mynediad at wybodaeth a fydd yn galluogi staff i ymgymryd â thasgau gwaith waeth ble mae eu lleoliad a'r ddyfais y maent yn ei defnyddio. Fodd bynnag, nid yw protocolau gwneuthurwyr ar gyfer dihalogi'r dyfeisiau symudol a ddefnyddir amlaf e.e. ffôn clyfar neu lechen bob amser yn ddigon i fynd i'r afael â'r risgiau o drosglwyddo heintiau yn yr amgylchedd gofal iechyd gan nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel dyfeisiau meddygol[1]. O dan ddosbarthiad Spaulding (1957) byddai'r rhan fwyaf o ddyfeisiau symudol yn cael eu diffinio fel rhai nad ydynt yn hanfodol. Fodd bynnag gallai technolegau esblygol gynnwys dyfeisiau symudol gydag apiau a ddefnyddir ar y croen i synhwyro a chanfod cyflyrau[2] neu drin cleifion ac, o'u defnyddio yn y cyd-destun hwn, byddent yn cael eu hystyried yn ddyfeisiau meddygol a byddai'r rheoliadau dyfeisiau meddygol yn berthnasol.

Gall dyfeisiau symudol weithredu fel ffomidau wrth drosglwyddo heintiau ac er bod tystiolaeth gyfyngedig sy'n cysylltu eu defnydd yn uniongyrchol â'r cynnydd mewn HCAI mae astudiaethau ar ffonau symudol yn enwedig wedi dangos eu bod yn gronfeydd ar gyfer bacteria pathogenaidd[3,4,5,1 ,6,7,8,9]. Roedd y bacteria pathogenaidd a ganfuwyd yn yr astudiaethau hyn yn cynnwys *Staffylococws Awrëws* (MSSA a MRSA), *Escherichia coli*, *Klebsiella* spp, *Pseudomonas* spp, ac roedd gan rai ohonynt ymwrthedd i'r prif gyffuriau[10] a phob un ohonynt yn amodol ar ddisgwyliadau lleihau bacteremia Llywodraeth Cymru (WHC 2019)[11]. Er bod yr astudiaethau hyn yn adrodd am facteria a dyfwyd o samplau, mae'n destun pryder bod tystiolaeth o facteria Gram negatif eraill na thyfodd (bacteria marw) ond a godwyd o'r dyfeisiau e.e. *Acinetobacter spp, Pseudomonas spp, Enterobacter spp.* Gallai methiant i feithrin yr organebau hyn fod oherwydd y dull a ddefnyddiwyd i'w meithrin neu oherwydd yr amodau gwael o ran y twf. Mae'r mathau hyn o organebau wedi'u cysylltu â brigiadau o achosion yng Nghymru a gallai fod ganddynt ymwrthedd cynhenid.

Honnir y gall y dyfeisiau symudol hefyd ddod yn estyniad o'r microbiome defnyddiwr unigol[12,9] neu'r amgylchedd y caiff ei ddefnyddio ynddo. Yn ogystal â bacteria, mae pathogenau feirysol hefyd wedi'u hynysu ar ffonau gweithwyr gofal iechyd[13].

Mae'r defnydd o ddyfeisiau symudol gan weithwyr gofal iechyd yn cynyddu'r risg o halogiad cylchol ailadroddus rhwng y dwylo a'r wyneb (e.e. trwyn, clustiau a gwefusau), a gall gwahaniaethau mewn hylendid personol ac ymddygiad gyfrannu ymhellach at y risgiau[14]. Mae dyfeisiau symudol a'r defnydd cynyddol o ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen yn her unigryw mewn lleoliadau gofal iechyd o ran glanhau a dihalogi am fod gweithwyr gofal iechyd yn cyffwrdd â nhw'n aml â'u dwylo mewn menyg/heb fenyg, maent yn cael eu defnyddio mewn ystafelloedd cleifion lluosog ac amgylcheddau eraill a allai fod yn halogedig, neu'n cael eu cario ym mhocedi pobl neu gan bobl.
Felly, mae angen canllawiau a hyfforddiant ar weithwyr gofal iechyd i liniaru'r risgiau. Efallai na fydd dyfeisiau, yn enwedig ffonau symudol personol, yn cael eu glanhau o gwbl. Mewn un astudiaeth dywedodd 58% o staff eu bod yn glanhau eu ffôn unwaith y dydd ar y gorau[5.] Mewn astudiaethau eraill dywedodd 44% i 90% nad ydynt erioed wedi glanhau eu dyfais[3,15].

Awgrymir mabwysiadu dull bwndelu at atal a rheoli dyfeisiau electronig[1,16] ac mae'r canllaw hwn wedi'i ddatblygu i helpu i leihau'r risg o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd o ddefnyddio/rhannu'r dyfeisiau hyn sy'n 'anodd eu dihalogi' ac yn aml yn ddyfeisiau bregus. Mae tystiolaeth yn dangos bod defnyddio weips alcohol yn rheolaidd i ddihalogi dyfeisiau yn effeithiol o ran lleihau'r llwyth bacteriol[17,18] a chynhaliwyd astudiaeth yn defnyddio Chlorhexidine[19] a hefyd UV-C, ond gallai defnyddio pob un o'r rhain dorri'r warant os bydd lleithder yn mynd i mewn i'r ddyfais neu os bydd dirywiad neu niwed i'r sgrin oherwydd hyn neu oherwydd diheintyddion eraill. Mae hefyd yn bwysig ystyried yr angen i lanhau cyn y cam dihalogi.

Nid yw'n syndod bod y llenyddiaeth yn nodi bod hylendid dwylo yn strategaeth allweddol ar gyfer lleihau halogiad dyfeisiau symudol ochr yn ochr â rhagofalon synhwyrol. Mae hefyd angen dull pragmatig o ddihalogi tra'n cydnabod cyfyngiadau ar y defnydd o gemegau ar ddyfeisiau electronig. Felly bydd yn bwysig gwella gwybodaeth ac addysg staff am y risgiau cysylltiedig, a'r rhagofalon atal heintiau sydd eu hangen er mwyn sicrhau newid ymddygiad wrth ddefnyddio a rheoli'r dyfeisiau hyn. Gall ymgyrch ymwybyddiaeth ar leihau risgiau haint wrth ddefnyddio dyfeisiau symudol wella arferion da[15].

## Ystyriaethau Dihalogi

Mae polisïau dyfeisiau meddygol mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn amrywio o ran y cynnyrch a argymhellir ar gyfer dihalogi offer. Felly, bydd cymhwyso'r safonau yn gofyn am brotocol i gynnwys y cynhyrchion hynny y cytunwyd arnynt yn lleol (Atodiad 1). Mae alcohol 70% yn cael ei nodi amlaf mewn astudiaethau i leihau halogiad ar ddyfeisiau symudol tra bod gwneuthurwyr yn aml yn argymell sychu â lliain tamp. Mae weips (fel y rhai sydd ar gontractau cyfredol Cymru) yn cael eu defnyddio'n eang ar draws sefydliadau h.y. *Clinell* ac maent yn darparu cynnyrch cyfleus ar gyfer dihalogi'n rhwydd tra bod toddiannau clorin yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer dihalogi arwynebeddau ac amgylcheddau. Yn ogystal, bydd angen penderfynu ar y defnydd o dechnolegau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg megis UV a HPV a diheintyddion sborleiddiol ar lefel Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.

# Cyfeiriadau:


1. Manning ML, Davis J, Sparnon E, Ballard R. (2013**). *iPads, droids, and bugs: Infection prevention for mobile handheld devices at the point of care***. *American Journal of Infection Control* 41; 2013.
2. Pyrek KM. (2019). Contaminated Mobile Technology: ***Making it Part of Your Institution's Cleaning and Disinfection Progam.*** Infection Control Today < www.infectioncontroltoday.com cyrchwyd 08.04.2019>
3. Brady RRW, Verran J. (2010). ***Review of mobile communications devices as potential reservoirs of nosocomial pathogens***. Journal of Infection Hospital; Cyf. 71. (4): 295-300
4. Debnath T, Bhowmik S, Islam T, Chowdhury MMH. (2018). ***Presence of Multi-Resistant Bacteria on Mobile Phones of Healthcare Workers Accelerates the Spread of Nosocomial Infection and Regarded as a Threat to Public Health in Bangladesh*. **The Journal of Microscopy & Ultrastructure; 6(3): 165-169
5. Guzzi L, Hinojosa MG, Christin MD, Pescio AH, Rodriguez MA, Dimitroff PA. (2018). ***Mobile Phones; a potential source of nosocomial infection***; International Journal of Infectious Diseases; Cyf 73: atodiad 26.
6. Naveed M. (2018). ***Mobile Phone Cultures of the Healthcare Workers: A possible Source for Nosocomial Infections.*** American Journal of Clinical Pathology; 149:S136-139.
7. Nwankwo EO, Ekwunife N, Mofolorunsho KC. (2014). ***Nosocomial pathogens associated with the mobile phones of healthcare workers in hospital in Anyigba, Kogi state, Nigeria***. Journal of Epidemiology and Global Research; 4: 135-140
8. Simmonds R, Lee D, Hayhurst E. (2019). ***Mobile phones as fomites for bacteria in hospitals : microbiome analysis reveals hidden contaminants.*** Journal of Hospital Infection.
9. Venkatesan A, Kansal S, Patel SS, Akulwar SL. (2015). **The role of hand hygiene and mobile phones in transmitting hospital acquired infection**. International Journal of Biomedical and Advance Research: 6; 05. 435-437
10. Smilbert OC, Aung AK. (2018). ***Mobile phones and computer keyboards: unlikely reservoirs of multi-drug resistant organism in the tertiary intensive care unit***. Journal of Infection Hospital; Cyf.99; Rhifyn 3: 295-298
11. Cylchlythyr Iechyd Cymru (2019). ***WHC/2019/019: NODAU GWELLA AMR A HGAI AR GYFER 2019-20.*** Llywodraeth Cymru
12. Meadow JF, Altichter AE, Green JL. (2014). ***Mobile phones carry the personal microbiome of their owners.*** PeerJ; 2:e447:eCasgliad 2014
13. Cavari Y., Kaplan O, Zander A, Hazan G, Shemer-Avni Y, Borer A. (2016). ***Healthcare workers mobile phone usage; a potential risk for viral contamination. Surveillance pilot study***. Journal of Infectious Diseases: Cyf 48 Rhifyn 6.
14. Ulger F, Ahmet D, Saban E, Mustafa S, Leblebiciogl H. (2015). ***Are healthcare workers' mobile phones a potential source of nosocomial infections? Adolygiad o'r llenyddiaeth.*** J Infect Dev Ctries 2015; 9 (10): 1046-1053
15. Crofton CC, Foley SJ. (2018). ***An investigation of radiographers' mobile phone use and the success of an awareness campaign at reducing the nosocomial infection risks***. Radiography; 24: 57-63.
16. IPAC Canada's Standards and Guidelines Committee. (2018). ***POSITION PAPER: Electronic Devices practice recommendations.*** Canadian Journal of Infection Control. Gaeaf 2018; s 197-197.
17. Albrecht UV, von Jan U, Sedlacek l, Groos S, Suerbaum S, Vonberg RP. (2013***). Standardised, app-based disinfection of iPads in a clinical and non-clinical setting: comparative analysis***. Journal of Medical Interner Research; 15(8): 176
18. Angadi KM, Misra R, Gupta U, Jadhav S, Sardar M. (2014). ***Study of the role of mobile phones in the transmission of Hospital acquired infections*.** Medical Journal of Dr. D.Y. Prifysgol Patil: cyf 7(4): 436-438.
19. Howell V, Thoppil A, Mariyaselam M, Jones R, Young H, Sharma S, Blunt M, Young P (2014). ***Disinfecting the iPad: evaluating effective methods*.** Journal of Hospital Infection; **87(2):77-83**

## Atodiad 2

### Canllaw Cyflym ar Ddefnyddio Dyfeisiau Symudol mewn Mannau Clinigol

### Gellir eu defnyddio i wneud y canlynol

- Diweddaru a chreu cofnodion gofal
- Cynorthwyo i wneud diagnosis o gyflyrau allweddol
- Adalw canlyniadau cleifion
- Cael mynediad at offer gwneud penderfyniadau ar gyfer presgripsiynu, a chefnogi'r broses
- Cael mynediad at gyngor i'w roi i gleifion, gofalwyr, ymwelwyr, staff ac ati.
- Cynnwys cleifion mewn arolygon sy'n ymwneud â'u profiad o ofal
- Cyfathrebu â chydweithwyr eraill

### Ni ddylid eu defnyddio ar gyfer y canlynol

- Cael mynediad at weithgarwch personol nad yw'n ymwneud â gwaith mewn man clinigol neu gartref claf.
- Mewn ystafell ynysu neu fae y mae'n hysbys bod claf heintiedig yno neu yr amheuir bod claf heintiedig yno, heb asesu'r risg
- Yn y toiledau neu'r ystafelloedd ymolchi
- Ar wely'r claf

### Gofynion Atal a Rheoli Heintiau (IP&C)

- Dilyn gweithdrefnau a Pholisïau Atal a Rheoli Heintiau a Dyfeisiau Meddygol y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth bob amser
- Sicrhau hylendid dwylo cyn ac ar ôl gafael yn y ddyfais symudol a chyn ac ar ôl dod i gysylltiad â'r claf
- Dilyn cyfarwyddiadau dihalogi'r gwneuthurwr ar gyfer dyfeisiau sydd wedi'u cofrestru gyda'r MHRA

#### *Glanhau'r Ddyfais*

v' Tynnwch unrhyw orchudd amddiffyn oddi ar y ddyfais

v' Gwiriwch am ddifrod neu graciau yn y sgrin a chorff y ddyfais

v' Gan ddefnyddio'r weip neu hylif glanhau a diheintio y cytunwyd arno gan y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, sychwch arwyneb blaen a chefn, ac yna ymyl allanol y ddyfais.

v' Gadewch i'r ddyfais sychu cyn rhoi'r gorchudd yn ôl

#### *Glanhau'r gorchudd Amddiffynnol*

v' Sychwch bob arwyneb o'r gorchudd amddiffynnol gan ddefnyddio'r weip neu hylif glanhau a diheintio y cytunwyd arno gan y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth

v' Gadewch iddo sychu

v' Newidiwch y gorchudd amddiffynnol neu waredwch y gorchudd untro

#### Gofynion gwefru a storio

v' Rhaid hefyd sychu gwifrau gwefru, bysellfyrddau a chasys cario o leiaf bob dydd os cânt eu cadw yn y man clinigol

v' Rhaid storio'n ddiogel i atal risgiau halogi ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

**Negeseuon Allweddol - Ffonau Symudol/Cyfrifiaduron Llechen:**

- Mae ffonau symudol/cyfrifiaduron llechen yn cael eu gweld fwyfwy fel offer gwerthfawr yn yr amgylchedd clinigol.
- Gall dyfeisiau o'r fath gael eu halogi ag organebau heintus yn hawdd o'ch rhyngweithio cymdeithasol arferol ond gallent ddod yn ffomidau i drosglwyddo organebau sydd ag ymwrthedd i'r prif gyffuriau.
- Cadwch eich dyfais yn lân ac mewn cyflwr da
- Meddyliwch yn ofalus ble rydych chi'n defnyddio ffôn symudol/llechen yn yr amgylchedd clinigol ac ystyriwch ei ddefnyddio yng nghyd-destun arferion da ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau:
  - Rhowch y ddyfais i'r naill ochr cyn ymgymryd â gweithgarwch clinigol (h.y. yn eich poced ac ati)
  - Mae diheintio dwylo yn hanfodol i dorri cadwyn yr haint.